# QUEENSFERRY

**CYNLLUN GWEITHREDU CREU LLEOEDD** (2026-2028)
**Cynllun Prosiect-16 i wella Queensferry erbyn 2028:** wedi ei arwain gan Gyngor Sir y Fflint, Cyngor Tref Queensferry a Sefydliadau Partner.

**1090**

**Mae Cynllun Creu Lleoedd Queensferry, wedi'i hysbysu gan 1090 o gyfraniadau gan bobl leol**

**Mae Creu Lleoedd yn ymwneud â llunio lleoedd o amgylch anghenion a dyheadau yr unigolion sy'n byw, gweithio ac ymweld â nhw. Mae'n broses gydweithredol sy'n uno gwybodaeth, syniadau ac adnoddau lleol i wella gofodau cyhoeddus, atgyfnerthu cysylltiadau cymunedol, a chefnogi lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.**

Mae Cynllun Gweithredu Creu Lleoedd Queensferry wedi'i lunio drwy ymgynghoriad helaeth gyda phreswylwyr, busnesau, grwpiau cymunedol a darparwyr gwasanaethau lleol. Mae eu mewnwelediad a'u blaenoriaethau wedi cynorthwyo i lunio gweledigaeth a rennir ar gyfer dyfodol Queensferry.

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn (2026-2028) yn gosod fframwaith ar gyfer darpariaeth yn seiliedig ar y 8 blaenoriaeth a nodwyd yng Nghynllun Creu Lleoedd Queensferry. Mae'n amlinellu 16 prosiect ymarferol y mae partneriaid lleol wedi ymrwymo i'w darparu. Er bod y prosiectau'n dibynnu ar gyllid o amrywiaeth o ffynonellau nad ydynt o reidrwydd wedi'u gwarantu, maent yn adlewyrchu uchelgais cryf ac ar y cyd i greu newid cadarnhaol ar gyfer Queensferry erbyn 2028.



## Blaenoriaeth 01

### Queensferry sy'n Groesawgar - Gwneud Argraff Gyntaf Gref

**Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir y Fflint**
**I'w ddarparu gan:**
Tîm Twristiaeth Cyngor Sir y Fflint
**Pwrpas:**
Hyrwyddo Queensferry fel cyrchfan a chefnogi gwelliannau o ran sut mae pobl yn cyrraedd a'u profiad o'r dref, gan gynnwys gweledeedd, arwyddion a llwybrau allweddol.
**Effaith erbyn 2028:**
Gwell synnwyr o gyrraedd a gwell ymwybyddiaeth o'r dref, gyda chynnydd cyson mewn ymwelwyr yn cefnogi busnesau lleol.

## Blaenoriaeth 02

### Dathlu Hanes a Chymeriad Queensferry

**Prosiect Deeside Through Time**
**I'w ddarparu gan:**
Tîm Twristiaeth Cyngor Sir y Fflint
**Pwrpas:** Gweithio gyda chymunedau lleol i rannu a dathlu treftadaeth yr ardal, gan gynnwys ei hanes adeiladu, diwylliannol a naturiol.
**Effaith erbyn 2028:** Mwy o ymwybyddiaeth o dreftadaeth leol a synnwyr a rennir cryfach o le ar draws y gymuned.

**Cynllun Gwobrau Cymunedol Queensferry**
**I'w ddarparu gan:**
Cyngor Cymuned Queensferry
**Pwrpas:** Cyflwyno cynllun gwobrau cymunedol i gydnabod gwirfoddolwyr, grwpiau cymunedol, busnesau a phobl ifanc sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i Queensferry.
**Effaith erbyn 2028:**
Mwy o falchder a chydnabyddiaeth ddinesig o'r bobl a'r sefydliadau sy'n helpu i siapio hunaniaeth Queensferry.

## Blaenoriaeth 03

### Stryd Llawn Bwrlwm

**Cynllun Chwarae yr Haf yn Tŷ Calon**
**I'w ddarparu gan:**
Tîm Datblygu Chwarae Cyngor Sir y Fflint
**Pwrpas:** Darparu cyfleoedd chwarae mynediad agored i blant a phobl ifanc a chasglu adborth i helpu i siapio darpariaeth y dyfodol.
**Effaith erbyn 2028:** Mwy o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau lleol, gyda gwell dealltwriaeth o anghenion chwarae y dyfodol.

**Edrych ar Gyfleoedd Hamdden a Chwaraeon**
**I'w ddarparu gan:** Cyngor Cymuned Queensferry
**Pwrpas:** Edrych ar gyfleoedd ar gyfer cyfleusterau hamdden a chwaraeon ychwanegol i blant, pobl ifanc a theuluoedd.
**Effaith erbyn 2028:** Gwell dealltwriaeth o anghenion a chyfleoedd hamdden a chwaraeon cymunedol. needs and opportunities

## Blaenoriaeth 04

### Mynd i'r Afael â Safleoedd ac Adeiladau Gwag

**Grant Gwella Eiddo Canol y Dref**
**I'w ddarparu gan:**
Tîm Adfywio Cyngor Sir y Fflint
**Pwrpas:**
Darparu cyllid a chefnogaeth i berchnogion eiddo i wella adeiladau a llenwi unedau gwag neu rai nad ydynt yn cael llawer o ddefnydd.
**Effaith erbyn 2028:**
Gostyngiad graddol mewn eiddo gwag a chanol tref mwy cadarnhaol wedi ei gynnal yn well.



Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU | Funded by UK Government
Trawsnewid Trefi | Transforming Towns
Llywodraeth Cymru | Welsh Government
Cyngor Sir y Fflint Tîm Adfywio Regeneration Team Flintshire County Council
creu lleoedd Sir y Fflint
Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council

# Blaenoriaeth 05

## Ymfalchïo mewn Gofodau Cyhoeddus

### Gwelliannau Archwilio Seilwaith Gwyrdd

**I'w ddarparu gan:**
Tîm Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol Cyngor Sir y Fflint
**Pwrpas:**
Cyflawni camau blaenoriaeth a nodwyd trwy Archwiliadau Isadeiledd Gwyrdd i wella ansawdd a gwytnwch mannau gwyrdd.
**Effaith erbyn 2028:**
Mwy o ymwybyddiaeth gymunedol o fuddion isadeiledd gwyrdd, gydag o leiaf un prosiect gwella wedi ei gyflwyno.

# Allwedd

Cynrychiolir pob **blaenoriaeth** gan liw unigryw Efallai y bydd gan brosiectau sawl smotyn lliw sy'n dangos eu bod yn cyfrannu at fwy nag un flaenoriaeth.

**Sut i'w ddarllen:**
Mae prosiect sy'n cynnwys **un smotyn** yn cefnogi'r un flaenoriaeth honno.
Mae prosiect sy'n cynnwys **mwy nag un smotyn** yn cefnogi mwy nag un flaenoriaeth.

- Blaenoriaeth 1
- Blaenoriaeth 2
- Blaenoriaeth 3
- Blaenoriaeth 4
- Blaenoriaeth 5
- Blaenoriaeth 6
- Blaenoriaeth 7
- Blaenoriaeth 8

# Blaenoriaeth 06

## Dathlu Bywyd Lleol ac Ysbryd Cymunedol

### Cefnogaeth Canolbwynt Cymunedol

**I'w ddarparu gan:**
Tîm Datblygu Cymunedol Cyngor Sir y Fflint
**Pwrpas:** Cefnogi canolbwynt cymunedol presennol a rhai sy'n datblygu trwy weithio gyda grwpiau lleol i gynnig gweithgareddau, cyngor a mannau croesawus.
**Effaith erbyn 2028:**
Mwy o breswylwyr yn defnyddio cefnogaeth a gweithgareddau lleol, gan helpu i gryfhau cysylltiadau cymunedol.

### Gwasanaeth Presgripsiynu Cymdeithasol

**I'w ddarparu gan:**
Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC)
**Pwrpas:**
Gweithio gyda phartneriaid i gysylltu pobl â grwpiau a gweithgareddau lleol.
**Effaith erbyn 2028:**
Mwy o breswylwyr yn gysylltiedig â chymorth, gan wella lles a lleihau unigedd.

### Peilot Allgymorth Cymunedol (Gwasanaeth Symudol)

**I'w ddarparu gan:**
Yr Adran Gwaith a Phensiynau
**Pwrpas:** Profi ffyrdd mwy hyblyg o ddarparu cefnogaeth canolfan waith o fewn cymunedau, gan gynnwys allgymorth mewn lleoliadau lleol.
**Effaith erbyn 2028:** Mwy o breswylwyr yn gallu cael mynediad at gefnogaeth cyflogaeth mewn mannau lleol cyfarwydd, gan wella ymgysylltiad â gwasanaethau.

### Rhaglen Cymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed

**I'w ddarparu gan:**
Tîm Heneiddio'n Dda - Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir y Fflint
**Pwrpas:** Gweithio gyda phartneriaid a phreswylwyr lleol, yn arbennig pobl hŷn, i helpu i siapio lleoedd a gwasanaethau lleol.
**Effaith erbyn 2028:** Mwy o ymwneud gan bobl hŷn wrth wneud penderfyniadau lleol, gan helpu i greu cymunedau sy'n gyfeillgar i oed sy'n fwy cynhwysol.

### Ymgysylltu a Chyfathrebu â'r Gymuned

**I'w ddarparu gan:**
Cyngor Cymuned Queensferry
**Pwrpas:** Gwella cyfathrebu gyda phreswylwyr trwy well cyfryngau cymdeithasol a digwyddiadau ymgynghori cymunedol.
**Effaith erbyn 2028:** Preswylwyr â gwell dealltwriaeth, cysylltiadau cymunedol cryfach a mwy o gyfranogiad mewn mentrau lleol.

# Blaenoriaeth 07

## Lleoliad Dysgu a Datblygu Sgiliau

### Rhaglen Profiad Gwaith

**I'w ddarparu gan:**
Yr Adran Gwaith a Phensiynau
**Pwrpas:** Cynyddu mynediad at leoliadau profiad gwaith gwirfoddol, yn arbennig i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant.
**Effaith erbyn 2028:**
Mwy o bobl ifanc yn cael profiadau a hyder, gan eu helpu i symud yn agosach at gyflogaeth neu hyfforddiant.

### Gwasanaeth Cefnogi Gwirfoddoli

**I'w ddarparu gan:**
Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC)
**Pwrpas:**
Cefnogi preswylwyr i gael cyfleoedd i wirfoddoli sy'n datblygu sgiliau a phrofiad.
**Effaith erbyn 2028:**
Mwy o wirfoddoli a mwy o bobl yn datblygu sgiliau trwy weithgareddau cymunedol.

# Blaenoriaeth 08

## Datblygu Queensferry sy'n fwy Gwyrdd

### Cyflawni Plannu Coed Trefol

**I'w ddarparu gan:**
Tîm Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol Cyngor Sir y Fflint
**Pwrpas:**
Cyflawni cynlluniau plannu coed trefol i gynyddu nifer y coed, cefnogi bioamrywiaeth a gwella'r amgylchedd lleol.
**Effaith erbyn 2028:**
Mwy o ymwybyddiaeth gymunedol o fanteision coed, gydag o leiaf un cynllun plannu coed wedi ei gyflwyno.

### Creu a Gwella Cynefin Peillio

**I'w ddarparu gan:**
Tîm Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol Cyngor Sir y Fflint
**Pwrpas:**
Creu neu wella cynefinoedd i beillwyr trwy fesurau megis plannu blodau gwyllt, llai o dorri glaswellt a rheolaeth sy'n ystyriol o natur.
**Effaith erbyn 2028:**
Gwell bioamrywiaeth, mwy o ymwybyddiaeth o werth mannau naturiol ac o leiaf un cynllun gwella cynefin wedi ei gyflwyno.

"Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg. Gweler y dudalen Saesneg ar ein gwefan. This document is also available in English. See English page on our website."

